# Croeso i flwyddyn 6!





# Pwy ydy Pwy?



| | |
|---|---|
| **Athro** | **Cynorthwyydd Dysgu** |
| Mr Jonathan Thomas | Miss Keisha Jones |
|  |  |

## Dewch i gael cip ar beth sy'n digwydd yn ein dosbarth tymor hyn:

Dyma blwyddyn 6, eleni mae yna 31 o ddisgyblion yn ein dosbarth. Ein hathro dosbarth yw Mr Thomas ac ein cynorthwyydd yw Miss Jones. Enw ein dosbarth yw 'Dosbarth Cychod'.

### Iaith

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau gramadeg y disgyblion. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ysgrifennu nifer o destunau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod eich plentyn yn darllen rhywbeth bob dydd. Mae llyfrau darllen Saesneg a Chymraeg yn cael eu newid drwy'r wythnos felly mae'n hanfodol bod eich plentyn yn cofio dod â'u llyfrau a chofnod darllen i'r ysgol bob dydd.

### Rhifedd

Byddwn yn datblygu sgiliau rhif, siâp, trin data a rhesymu yn ystod y flwyddyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ceisiwch sicrhau bod eich plentyn yn parhau i ddysgu tablau trwy ddefnyddio J2blast ar HWB

### Addysg Gorfforol

Bydd ymarfer corff ar ddydd Mawrth. Mae angen gwisgo dillad addas ar gyfer y sesiwn yma. Bydd angen trowsus ymarfer corff hir / siorts tywyll, crys-t lliwiau tŷ ac esgidiau rhedeg.

## Tasgau Dysgu Adref

Mi fydd dysgu adref yn cael ei osod ar Ddydd Gwener a disgwylir i'r disgyblion ei gyflawni erbyn Dydd Mercher. Mae'r tasgau'n cael eu gosod mewn Google Classroom o fewn Hwb.

## Gwener Gwych

Mae angen i'r disgyblion gwisgo hen ddillad a dod ag esgidiau glaw / hen esgidiau gyda nhw i'r ysgol pob dydd Gwener. Rydym yn gwneud ystod o weithgareddau yn ystod y prynhawn tu allan beth bynnag fo'r tywydd.